Ysgol Gymuned Neyland
15 John Street
Neyland
Aberdaugleddau
SA73 1TH

24/06/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Mehefin 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymuned Neyland yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella prosesau hunanwerthuso

- Mae arweinwyr wedi datblygu proses systematig ar gyfer casglu ystod addas o dystiolaeth berthnasol i lywio eu gwerthusiad o waith yr ysgol. Maent yn ystyried barn disgyblion a rhieni'n ofalus ac yn defnyddio ymweliadau ag ysgolion eraill a phartneriaethau proffesiynol i fyfyrio ar eu meddwl a'i herio'n briodol.
- Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r tîm staff ehangach a'r llywodraethwyr gyfrannu at nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae hyn yn gwella eu medrau arweinyddiaeth ac yn hybu cyd-ddealltwriaeth glir o brif flaenoriaethau gwella'r ysgol.
- Mae athrawon yn gwerthfawrogi cyfleoedd i gydweithio ar ddatblygu eu harfer trwy'r model anogaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae hyn yn eu galluogi i arfer mwy o gyfrifoldeb dros eu datblygiad proffesiynol eu hunain.
- Mae arweinwyr yn defnyddio sesiynau galw heibio cyson yn ystod gwersi i nodi lle mae'r addysgu yn effeithiol a sut gellir ei wella. Maent yn rhoi adborth unigol â ffocws sy'n helpu athrawon i wneud newidiadau cynyddol i'w harfer a sicrhau bod dulliau addysgu a dysgu ysgol gyfan yn gyson ar draws y dosbarthiadau.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae staff yn defnyddio gwybodaeth asesu yn ddiagnostig i nodi agweddau manwl gywir ar gyfer gwella. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae athrawon wedi mireinio sut maent yn addysgu medrau darllen penodol ar ôl nodi bod angen i ddisgyblion hŷn ddatblygu'r rhain ymhellach. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i ddefnyddio'r medrau hyn yn fwy effeithiol yn eu dysgu ehangach.
- Mae arweinwyr yn defnyddio deilliannau hunanwerthuso i flaenoriaethu datblygiad proffesiynol sy'n cefnogi staff i wella eu harfer yn briodol. Er enghraifft, maent yn darparu hyfforddiant mewnol perthnasol ac yn cydweithio â darparwyr allanol i alluogi staff i gydweithio i addasu cwricwlwm yr ysgol.
- Mae arweinwyr yn dechrau gwerthuso effaith newidiadau diweddar i'r cwricwlwm. Maent wedi nodi'n gywir sut mae'r newidiadau hyn wedi cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n amlach, er nad ydynt wedi rhoi ystyriaeth lawn i effeithiolrwydd darpariaeth o ran datblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion.

## Sicrhau bod athrawon yn darparu adborth parhaus mwy effeithiol yn ystod gwersi a bod ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni

- Mae arweinwyr wedi sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer adborth sy'n cael ei ddeall gan staff a disgyblion ac sy'n cael ei gymhwyso'n gyson ar draws yr ysgol.
- Yn ystod gweithgareddau dysgu, mae staff yn cynnig adborth llafar amserol a phwrpasol sy'n helpu disgyblion i fynd i'r afael â chamsyniadau a datblygu eu dealltwriaeth yn briodol.
- Mae staff wedi cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau dangos mwy o stamina a hyder wrth lunio ymatebion ysgrifenedig estynedig.
- Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio adborth i fireinio ac ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol, gan lunio ysgrifennu sydd wedi'i strwythuro'n dda yn aml, yn defnyddio geirfa gynyddol fanwl ac yn ennyn diddordeb y darllenydd yn llwyddiannus. At ei gilydd, wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith.
- Mae arweinwyr a staff wedi rhoi cwricwlwm ar waith sy'n adlewyrchu dyheadau'r ysgol ar gyfer datblygiad disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, nid yw staff bob amser yn defnyddio cyd-destunau ar gyfer dysgu sy'n berthnasol i ddiddordebau neu brofiad disgyblion.
- Mae arweinwyr a staff wedi ymwreiddio dulliau addysgegol cyson ar draws yr ysgol. Er enghraifft, maent yn defnyddio waliau dysgu yn effeithiol, sy'n cael eu datblygu'n bwrpasol trwy gydol sesiynau ac yn darparu sbardunau gwerthfawr, geirfa allweddol a sgaffaldiau i ddisgyblion i gefnogi eu dysgu.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn gosod amcanion clir ar gyfer dysgu ac yn cyfleu disgwyliadau'n dda. Maent yn cynnal rhediad priodol mewn gwersi sy'n cynnal

ymgysylltiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn bwrpasol. Maent yn defnyddio holi yn dda i brocio dealltwriaeth, herio meddwl disgyblion a'u cefnogi i wneud cynnydd addas yn eu dysgu dros gyfnod.

- At ei gilydd, mae staff yn cydweddu'r addysgu yn briodol ag anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai yn y dosbarth adnoddau dysgu. Fodd bynnag, ar adegau, caiff gweithgareddau eu gorgyfarwyddo gan oedolion. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd bob tro i wneud penderfyniadau am eu dysgu neu ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6682393

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol